big pit national coal museum
amgueddfa lofaol cymru

cyfleoedd i ysgolion
2011-2012

national museum wales
amgueddfa cymru

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

creu antur o ddysgu!

Uchafbwynt ymweliad â Big Pit yw'r daith 90 metr o dan y ddaear gyda chyn-löwr. Gallwch chi hefyd ddysgu llawer mwy am streiciau, trychinebau a'r cymunedau glofaol drwy archwilio adeiladau'r pwll a'r arddangosiadau ar yr wyneb.

- Ewch i ymweld â'r stablau a siop y gof.
- Galwch heibio'r tŷ injan weindio sy'n dal i gael ei defnyddio heddiw.
- Dysgwch ragor am dechnegau mwyngloddio modern yn yr orielau mwyngloddio.
- Crwydrwch trwy'r baddonau pen pwll a chlywed straeon y bobl fu'n gweithio yn y diwydiant.

Mae gennym raglen gyffrous o ymweliadau a digwyddiadau a gynlluniwyd gydag anghenion ysgolion mewn golwg. Darllenwch ymlaen i ddysgu sut gallwch chi gyfuno eich taith dan ddaear neu ar wyneb y pwll â sesiwn gydag un o'n hwyluswyr.

SANDFORD AWARD

Gwobr Sandford am ragoriaeth mewn addysg dreftadaeth

Quality Badge awarded by

Council for Learning Outside the Classroom

Bathodyn Ansawdd a ddyfarnwyd gan y Cyngor am Ddysgu Tu Allan i'r Ystafell Ddosbarth

Mynediad AM DDIM diolch i gymorth Llywodraeth Cymru

Gweision yr Ymerodraeth
(CA2)

Sut fath o fywyd oedd gan y miloedd o blant ym Mhrydain Oes Fictoria oedd yn gorfod mynd allan i weithio? Defnyddiwch amrywiaeth o ffynonellau, gan gynnwys gwrthrychau o'n casgliad, i ddysgu rhagor am y plant a'u gwaith.

Hyd: 50 munud (10 munud o gyflwyniad, 30 munud o archwilio arddangosfeydd a gwrthrychau'r Amgueddfa, sesiwn 10 munud o adborth)

Nifer: dim mwy na 35 mewn grŵp

Maggie Morgan
(CA2)

Dim ond ar ddydd Mawrth. Dewch i ymweld â Maggie ar ei haelwyd i glywed straeon am ei phlentyndod yn gweithio yn y pwll a'i bywyd fel gwraig i löwr wedyn yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Mae Maggie'n hapus i ateb cwestiynau am amodau byw a gweithio yn nyddiau cynnar y pyllau glo.

Hyd: 40 munud

Nifer: dim mwy na 35 mewn grŵp

O domen i drysor
(CA1 a 2)

Dewch i ymweld â Thomen Coety sef hen domen wastraff Big Pit. Mae erbyn hyn yn ardal sy'n llawn bywyd gwyllt. Cewch ddysgu mwy am rywogaethau a chynefinoedd y domen a'r pwll dŵr, a mynd i chwilio am fwystfilod bach a throchi rhwydi yn y pwll.

Hyd: 10 munud o gerdded o Big Pit a sesiwn 1 awr

Nifer: dim mwy na 30 mewn grŵp

Dylid gwisgo dillad ac esgidiau addas ar gyfer yr awyr agored.

Ffoniwch (01495) 790311 am ragor o wybodaeth a'r dyddiadau sydd ar gael ar gyfer y sesiynau dan arweiniad.

I'r athrawon

Diwrnodau i athrawon

Rydym ni'n cynnig amrywiaeth o gyfleoedd datblygu proffesiynol a diwrnodau ymgyfarwyddo er mwyn eich helpu chi i gael y gorau o'ch ymweliad. Cysylltwch â'r Swyddog Addysg am ragor o fanylion ar **(01495) 796413.**

Adnoddau

Picedi, Plismona a Gwleidyddiaeth

Adnodd addysg i ysgolion uwchradd ynghylch Streic y Glowyr 1984-85. Mae'n cynnwys tystiolaeth lafar a lluniau. **http://www.amgueddfacymru.ac.uk/media/9/7/5/4/strike-cy.pdf**

Plant y Chwyldro

Plant y Chwyldro yw ein hadnodd dysgu rhyngweithiol a grëwyd mewn partneriaeth ag AALl Casnewydd i wella dealltwriaeth am amodau byw a gweithio plant yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Mae'n cynnwys taenlenni gweithgaredd, gweithgareddau mapio, teithiau rhithwir a thaflenni i'w lawrlwytho. **www.amgueddfacymru.ac.uk/cy/2158**

Tomen Coety

Adnoddau i gyd-fynd ag ymweliad â Thomen Coety. Mae hen domen wastraff y pwll yn warchodfa natur fach erbyn hyn ac yn ddelfrydol ar gyfer dysgu yn yr awyr agored – yn enwedig gwyddoniaeth a daearyddiaeth. Mae rhagor o fanylion ar ein gwefan: **www.amgueddfacymru.ac.uk/cy/addysg/bigpit**

Ar gyfer ysgolion uwchradd

Rydym ni'n cynnig ystod o sgyrsiau a sesiynau wedi'u teilwra'n arbennig ar eich cyfer. Ffoniwch y Swyddog Addysg am ragor o fanylion ar **(01495) 796413.**

archebu eich lle

Archebwch eich lle cyn dod er mwyn sicrhau y cewch fanteisio i'r eithaf ar eich ymweliad â Big Pit. Ffoniwch ni ar **(01495) 790311.**

Mae'r teithiau dan ddaear yn rhedeg bob dydd rhwng 10am a 3.30pm. Y daith olaf y gellir ei harchebu yw 3pm. Ni fydd y daith dan ddaear ar gael ar rai dyddiau ym mis Ionawr oherwydd gwaith cynnal a chadw. Ffoniwch am fanylion, neu ewch i'r wefan: **www.amgueddfacymru.ac.uk/cy/bigpit**

Cofiwch fod croeso i chi ddefnyddio'r siop, y caffi a'r bwyty yn yr Amgueddfa.

Byddwn ni'n ysgrifennu atoch i gadarnhau manylion eich taith. Mae canllaw Cynllunio'ch Ymweliad a gwybodaeth iechyd a diogelwch ar gael i'ch helpu chi gyda'ch asesiad risg: **www.amgueddfacymru.ac.uk/cy/addysg/bigpit**

Dod o hyd i ni

Big Pit: Amgueddfa Lofaol Cymru, Blaenafon, Torfaen, NP4 9XP

I gael fersiwn print bras o'r daflen hon, ffoniwch (029) 2057 3149.